O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2013 Rhif 2732 (Cy. 266)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan Tredegar i Gylchfan Bryn-mawr, Blaenau Gwent) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2013

Gwnaed	*18 Hydref 2013*
Yn dod i rym	*22 Hydref 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (yr A465) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 22 Hydref 2013. Enw'r Gorchymyn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan Tredegar i Gylchfan Bryn-mawr, Blaenau Gwent) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2013.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys, neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 22 Hydref 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darnau o'r gefnffordd” *(“the lengths of the trunk road”)* yw'r darnau hynny o'r gefnffordd o ochr ddwyreiniol Cylchfan Tredegar hyd at ochr orllewinol Cylchfan Bryn-mawr ym Mwrdeistref Sirol Blaenau Gwent fel y'u disgrifir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau a Chyfyngiadau

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 12, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei yrru ar gerbytffordd tua'r gorllewin y darn hwnnw o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. Tra bo traffig yn cael ei wahardd gan erthygl 3 rhag symud ar lôn allanol cerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 ond, yn unol ag erthygl 12, ddim yn cael ei wahardd ar lôn fewnol cerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd a nodir yn Atodlen 1, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar lôn allanol cerbytffordd tua'r gorllewin y darn hwnnw o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r dwyrain.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 12, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei yrru ar y darnau hynny o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 12, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd modur, fynd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn hwnnw o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

7. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 12, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd modur, fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn hwnnw o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4.

8. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 12, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feic o'r fath gael ei reidio ar y darnau hynny o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5.

9. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 12, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5.

10. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 12, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd modur

oddiweddyd, ar y darnau hynny o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1, 2, 3 a 4.

Dirymu

11. Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan Nant-y-bwch i Gylchfan Bryn-mawr, Blaenau Gwent) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro)**(3)** drwy hyn wedi ei ddirymu.

Cymhwyso

12. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9 a 10 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

13. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni, yn unol â darpariaethau adran 15(2) o Ddeddf 1984, y bydd y gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn yn para mwy na 18 mis. Bydd y Gorchymyn hwn yn cael ei ddirymu pan gaiff y gwaith ei gwblhau.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 18 Hydref 2013

A Falleyn

ANDY FALLEYN
Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyflenwi Seilwaith
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
(3) 2013/1054

YR ATODLENNI

ATODLEN 1
GWRTHLIF

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt wrth ei chyffordd â Chylchfan Tredegar at bwynt 280 metr i'r gorllewin o'i chyffordd â Chylchfan Tredegar.

ATODLEN 2

GWAHARDD CERBYDAU

Y darn hwnnw o'r gefnffordd o Gylchfan Tredegar i Gylchfan Rasa.

Y darn hwnnw o'r gefnffordd o Gylchfan Rasa i Gylchfan Bryn-mawr.

ATODLEN 3

TERFYN CYFLYMDER 50 MYA

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 100 metr i'r de-orllewin o fan canol y drosbont gerddwyr yn Bryn Amlwg Close hyd at bwynt 480 metr i'r gogledd-ddwyrain o biler dwyreiniol trosbont Heol Merthyr (Dwyreiniol).

ATODLEN 4

TERFYN CYFLYMDER 40 MYA

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 480 metr i'r gogledd-ddwyrain o biler dwyreiniol trosbont Heol Merthyr (Dwyreiniol) hyd at drwyniad gogleddol yr ynys draffig ar ochr ogleddol Cylchfan Bryn-mawr.

ATODLEN 5

GWAHARDD BEICWYR A CHERDDWYR

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o Gylchfan Tredegar hyd at Gylchfan Ystad Ddiwydiannol Rasa.

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 100 metr i'r dwyrain o ganolbwynt trosbont Ffordd Llangynidr (y B4560) tua'r gogledd hyd at drwyniad gogleddol yr ynys draffig ar ochr ogleddol Cylchfan Bryn-mawr.